OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1475 (Cy.147) (C.41)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud - - 30 Mai 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 70(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) Pennir drwy hyn 1 Gorffennaf 2002 fel y dyddiad y daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym.

(2) Pennir drwy hyn 1 Rhagfyr 2002 fel y dyddiad y daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym.

(**1**) 2001 p.15.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
30 Mai 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthygl 2

Rhan 1

DARPARIAETHAU'R DDEDDF SY'N DOD I RYM AR 1 GORFFENNAF 2002

Darpariaethau'r Ddeddf	*Pwnc*
Adran 3(1) a (2)	Taliadau atodol i GIG
Adran 5	Cynhyrchu Incwm
Adran 19	Tystysgrifau cofnodion troseddol manylach
Adran 20	Rhestrau meddygol, deintyddol, offthalmig a fferyllol etc.
Adran 21	Cynnwys yn amodol ar restrau meddygol, deintyddol, offthalmig a fferyllol
Adran 22	Cofforaethau Deintyddol
Adran 23	Datgan buddiannau ariannol, rhoddion, etc.
Adran 24	Rhestrau ychwanegol
Adran 25	Atal ac anghymhwyso ymarferwyr
Adran 26	Rhestrau GMP a GDP
Adran 28	Cynlluniau Peilot
Adran 29	Gwneud cynlluniau peilot
Adran 30	Dynodi cymdogaethau neu safleoedd blaenoriaethol
Adran 31	Adolygu cynlluniau peilot
Adran 32	Amrywio a therfynu cynlluniau peilot
Adran 33	Contractau GIG
Adran 34	Ariannu gwaith paratoadol
Adran 35	Ffioedd, adfer taliadau a chosbau
Adran 36	Effaith Deddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol 1977
Adran 37	Safleodd y gellir darparu cynlluniau peilot ohonynt
Adran 38	Rheoliadau rheoli mynediad
Adran 39	Asesu cynlluniau peilot
Adran 41	Darpariaethau cyfatebol a chymhwyso deddfiadau
Adran 42	Gweinyddu presgripsiynau GIG a darparu gwasanaethau fferyllol
Adran 43	Darparu gwasanaethau fferyllol etc o bell